



Polisi Rheoli Alergeddau ac Anaffylacsis

YSGOL DYFFRYN AERON

POLISI RHEOLI ALERGEDDAU AC ANAFFYLACISIS

TROSOLWG CYFFREDINOL

Mae Ysgol Dyffryn Aeron wedi ymrwymo i ddull o weithio drwy'r ysgol gyfan er mwyn rheoli a gofalu am iechyd aelodau o gymuned yr ysgol sy'n dioddef o alergeddau penodol.

Nid oes modd i'r Ysgol sicrhau amgylchfyd sy'n rhydd o alergenau yn gyfan gwbl, ond gall lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r hyn sy'n peri'r alergedd, annog y rheiny sy'n dioddef i fod yn gyfrifol amdanynt eu hunain, a chynllunio ar gyfer ymateb yn effeithiol i argyfyngau posibl.

Mae'r Ysgol wedi ymrwymo i reoli'r risg o alergeddau yn rhagweithiol drwy:

- Annog plant sy'n dioddef o alergeddau i fod yn gyfrifol amdanynt eu hunain ac i ddysgu strategaethau i osgoi'r alergeddau.
- Darparu rhaglen ymwybyddiaeth ar anaffylacsis i staff.
- Sefydlu a pharatoi dogfennau ar gyfer cynllun rheoli cynhwysfawr, lle bo angen gwneud hynny.
- Sefydlu arferion a strategaethau ar gyfer lleihau'r posibiliadau o ddod i gysylltiad â'r hyn sy'n peri alergeddau penodol, lle bo angen gwneud hynny.
- Cadw cysylltiad agos â rhieni plant sy'n dioddef o alergeddau.

Mae'r dull hwn o reoli yn gyson â chynghor meddygol arbenigol cyfoes, ac mae'r Ysgol o'r farn fod addysgu plant i reoli eu cyflwr eu hunain yn sgîl sy'n gydnaws â'u sefyllfa yn y 'byd go iawn'.

RHESYMEG

Mae'r Ysgol yn sylweddoli y gall nifer o aelodau'r gymuned (disgyblion a staff) ddioddef o alergeddau i fwydydd penodol neu docsinau pryfed a allai beryglu eu bywyd. Mae'r Ysgol yn gofyn am gefnogaeth rhieni, staff a disgyblion wrth geisio sicrhau amgylchfyd ac ynddo'r perygl lleiaf posibl, gan ganolbwyntio hefyd ar sicrhau ymateb meddygol effeithiol i benodau anaffylactig posibl.

Bwriad y polisi hwn yw lleihau'r risg o blentyn yn dioddef anaffylacsis oherwydd alergedd yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol neu wrth fynychu gweithgaredd sy'n ymwneud â'r ysgol, a sicrhau bod staff wedi'u paratoi'n briodol i reoli sefyllfaoedd brys a allai godi.

Yr achosion cyffredin o alergeddau sy'n berthnasol i'r polisi hwn yw cnau, (a physgnau yn arbennig), cynhyrchion llaeth, wyau, gwenyn meirch, gwenyn, a morgrug. Alergedd i gnau yw'r alergedd sydd fwyaf tebygol o beri'r risg uchaf, ac o'r herwydd bydd angen ei reoli yn fwy llym nag alergeddau i gynhyrchion llaeth, wyau a gwenyn meirch, gwenyn a morgrug.

Mae'r Ysgol yn ymwybodol o'r pwysau ar rieni, gwarcheidwaid ac athrawon, oherwydd y posibilrwydd y bydd plant y maent yn gyfrifol amdanynt yn dioddef adwaith anaffylactig. I'r perwyl hwn, mae darparu gweithdrefnau a systemau i reoli pwysau o'r fath yn effeithiol hefyd yn un o amcanion y polisi hwn.

Mae egwyddorion sylfaenol Polisi Alergeddau'r Ysgol yn cynnwys: -

- Sefydlu'n rhagweithiol arferion rheoli risg effeithiol i leihau'r posibilrwydd y bydd disgyblion, staff, rhieni ac ymwelwyr yn dod ar draws bwydydd a phryfed cyffredin sy'n peri alergeddau.
- Hyfforddi ac addysgu staff i ymateb yn effeithiol ac ar fyrder i adwaith alergaidd.

DIFFINIADAU

Alergedd – Cyflwr sy'n peri i'r corff oradweithio i sylwedd (e.e. bwyd neu gyffur). Fe'i gelwir hefyd yn orhydeimledd.

Alergen – Sylwedd diberygl fel arfer sy'n peri adwaith alergaidd yn system imiwnedd unigolyn sy'n dueddol o gael alergeddau.

Anaffylaxis – Mae anaffylaxis, neu sioc anaffylactig, yn adwaith alergaidd sydyn, difrifol i fwyd, pigiadau, brathiadau, neu feddyginiaethau, sy'n gallu peryglu bywydau.

EpiPen – Enw brand dyfais tebyg i chwistrell sy'n cynnwys y cyffur adrenalin ac sy'n barod i'w chwistrellu i'r cyhyrau ar unwaith.

Amgylchfyd ac ynddo'r Perygl Lleiaf Posibl – Amgylchfyd lle mae arferion rheoli risg wedi lleihau'r risg o ddod ar draws alergenau i lefel resymol. Nid yw'n amgylchfyd heb alergenau.

Cynllun Gofal Iechyd Anaffylaxis – Dogfen fanwl sy'n amlinellu cyflwr a thriniaeth myfyriwr unigol, a chynllun gweithredu ar gyfer lleoli'r EpiPen.

System Reoli – System gofnodion a reolir gan yr unigolyn sydd mewn awdurdod ac sy'n disgrifio cynlluniau gofal meddygol personol y myfyriwr ac yn enwi'r aelodau penodol o staff y bydd angen arnynt dderbyn hyfforddiant a chael gwybod am y cynlluniau hyn.

PRIF STRATEGAETHAU

Agweddau Cyffredinol

Sefydlu gweithdrefnau a chyfrifoldebau eglur i'w dilyn gan staff er mwyn cwrdd ag anghenion plant ag anghenion meddygol ychwanegol.

Cynnwys rhieni, staff a'r plentyn wrth sefydlu cynllun gofal meddygol personol.

Sicrhau bod anghenion meddygol personol y plentyn yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol i'r holl athrawon perthnasol a staff eraill.

Sicrhau bod hyfforddiant Cymorth Cyntaf staff yn cynnwys rheoli anaffylacsis, ac ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n peri alergedd a'r gweithdrefnau cymorth cyntaf i'w dilyn yn achos argyfwng.

Gofynnir yn garedig i rieni plant sy'n cael pecyn bwyd amser cinio ystyried tynnu bwydydd ohono a allai beryglu aelodau o staff a disgyblion sy'n dioddef o alergeddau o'r fath.

Agweddau sy'n ymwneud â Chnau

Os yw'r ysgol yn ymwybodol o blentyn sy'n dioddef alergedd i gnau, rhaid gwneud arlwywr a chyflenwyr cinio'r ysgol yn ymwybodol o'r polisi i leihau'r risg a gofyn iddynt dynnu cnau ac eitemau bwyd sy'n cynnwys cnau o brydau'r ysgol. Nid yw hyn yn ymestyn i'r bwydydd sydd wedi'u labelu "gall gynnwys olion cnau"

Anogir plant i reoli eu halergedd eu hunain.

Agweddau sy'n ymwneud â Chynhyrchion Llaeth ac Wyau

Rheolir plant sy'n dioddef o alergedd i gynhyrchion llaeth neu wyau gan yr Ysgol trwy ymgynghori â'r rhieni fesul achos.

Agweddau sy'n ymwneud â Phryfed

Rheoli'n ddygn nythod gwenyn meirch, gwenyn a morgrug ar dir yr Ysgol a'r tir cyfagos. Rhaid cael system effeithiol er mwyn i'r staff adrodd wrth y rheolwyr, a threfn o ddifa nythod mewn da bryd.

Addysgu staff a disgyblion i roi gwybod os oes mwy o wenyn meirch, gwenyn neu bryfed nag arfer ym mhob ardal o'r ysgol.

CYFRIFOLDEBAU

Mae rhieni yn gyfrifol am:

Ddarparu gwybodaeth feddygol barhaus, cywir a chyfredol yn ysgrifenedig i'r Ysgol.

Bydd hyn yn cynnwys cwblhau **Cynllun Gofal Iechyd y Plentyn**. Bydd yr Ysgol yn holi am wybodaeth wedi'i diweddaru drwy **Gynllun Gofal Iechyd Plentyn** ar ddechrau pob blwyddyn galendr, a disgwylir i rieni ymateb. Ar ben hynny, os bydd plentyn yn datblygu cyflwr yn ystod y flwyddyn, neu os bydd newid yn ei gyflwr, rhaid i'r rhieni roi gwybod i'r Ysgol, a chadarnhau'r manylion yn unol â'r cynllun iechyd personol.

Darparu cyngor ysgrifenedig gan feddyg, sy'n egluro alergedd y plentyn, yn diffinio'r hyn sy'n peri'r alergedd a'r adwaith iddo, a'r feddyginiaeth angenrheidiol, yn cynnwys cwblhau **cynllun gweithredu** a thystiolaeth ffotograffig neu dystiolaeth arall.

Darparu EpiPen a/neu feddyginiaeth angenrheidiol arall, yn cynnwys monitro'r defnydd ohonynt yn ôl y dyddiad a newid y feddyginiaeth os bydd angen.

Darparu bwydydd priodol ar gyfer y plentyn os bydd angen.

Mae'r Ysgol yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod yr Ysgol yn derbyn dogfennaeth feddygol ynghylch alergedd plentyn.
- Sicrhau bod trefn effeithiol i wneud yn siŵr fod y wybodaeth feddygol yma yn cael ei diweddaru'n rheolaidd.
- Sicrhau bod rhieni'r plentyn yn darparu **Cynllun Gweithredu**.
- Sicrhau yn achos plant y gwyddys eu bod yn dioddef o alergeddau ac sy'n mynd ar ymweliadau allanol, fod yr asesiad risg a'r cynlluniau rheoli diogelwch ar gyfer yr ymweliadau allanol hynny yn cynnwys **Cynllun Gofal Iechyd y Plentyn**.
- Sicrhau bod staff cymorth cyntaf wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer defnyddio EpiPen a rheoli anaffylacsis.

Mae'r Staff Arlwyo yn gyfrifol am:

- Ddefnyddio cyflenwyr awdurdodedig yn unig a gweithredu fel y man a'r cyswllt rheoli ar gyfer yr holl fwydydd a brynir i'w defnyddio wrth arlwyo yn yr ysgol.
- Sicrhau bod cyflenwyr yr holl fwydydd a'r cyflenwyr arlwyo yn ymwybodol o bolisi'r ysgol ar gyfer lleihau risg.
- Sicrhau nad yw bwydydd sy'n cael eu cyflenwi yn cynnwys cnau neu fod label "gall gynnwys cnau" arnynt
- Adnabod disgyblion a staff sy'n dioddef o alergeddau bwyd.
- Labelu bwydydd a allai gynnwys cnau yn glir.

AMGYLCHFYD AC YNDDO'R PERYGL LLEIAF POSIBL

Mewn dosbarth lle ceir plentyn sy'n dioddef o alergedd, bydd yr Ysgol yn hybu'r wybodaeth am alergeddau bwyd drwy Lawlyfr yr Ysgol.

Ymwybyddiaeth staff drwy Gyflwyniad Iechyd a Diogelwch.

Hysbysiadau yn yr ardaloedd arlwy, ac o'u hamgylch, ac mewn asesiadau risg:

Dim Pysgnau

Dim Cnau o unrhyw fath

Bwydydd gyda chynhwysion neu gynhwysion cnau daear neu gnau. Gallai alergenau posibl gynnwys y canlynol:

- Taeniad siocled
- Bariau grawnfwyd
- Rhai mathau o fisgedi sy'n cynnwys cnau
- Cynfennau (condiments), e.e. saws satay
- Cacennau yn cynnwys cnau
- Rhai potiau byrbryd, ('snack pots') yn cynnwys cnau

Mae'n bwysig eich bod yn gwirio labeli cynhyrchion bwyd cyn anfon eich plentyn i'r ysgol gyda nhw - nid yw bob amser yn amlwg bod cynhyrchion yn cynnwys cnau neu olion cnau.

Gwerthfawrogwn fod hwn yn newid mawr i bawb ac ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra y gall hyn ei achosi.

YMWELIADAU ADDYSGIADOL

Bydd Arweinydd y Grŵp yn cysylltu â'r darparwr bwyd i sicrhau bod bwyd 'diogel' ar gael, neu fod rheolydd effeithiol yn ei le i leihau'r risg o ddioddef alergedd.

Os oes gan ddisgybl EpiPen, bydd Arweinydd y Grŵp yn sicrhau ei f/bod ef/hi, neu aelod arall o'r staff fydd yn goruchwyllo'r plentyn, wedi'i hyfforddi i ddefnyddio'r EpiPen, ac yn gallu rhoi unrhyw driniaeth feddygol bosibl fydd ei hangen yn ôl yr hyn a amlinellir yng Nghynllun Gofal Iechyd y Plentyn.

Bydd Arweinydd y Grŵp yn sicrhau bod gan y Disgybl ei EpiPen ar yr ymweliad, a bydd yn gyfrifol am ddiogelwch yr EpiPen.

Os ceir amheuaeth a ddylid caniatáu i ddisgybl ag alergedd gymryd rhan mewn ymweliad addysgiadol, dylai Arweinydd y Grŵp holi am gyngor y Rhiant neu Nyrs yr Ysgol.

DULL YR YSGOL O REOLI ALERGEDDAU DIFRIFOL (ANAFFYLACIS)

Dylid gwneud pob aelod o staff yr ysgol, athrawon cyflenwi a staff cynorthwyol yn ymwybodol o alergeddau difrifol ac anaffylacsis a'r gweithdrefnau ar gyfer gofal brys.

Bydd staff sy'n ymwneud â hyn yn gwybod am Gynllun Gofal Iechyd yr Ysgol.

Bydd yr EpiPen gael ei gadw mewn lle canolog, hawdd cyrraedd ato, gyda Diagram Llif Gofal mewn Argyfwng.

Cyfrifoldeb y rhiant/gwarcheidwad yw sicrhau:

- Bod meddyginiaeth wedi'i rhoi i'r ysgol.
- Bod y feddyginiaeth yn cael ei newid yn ôl yr angen, hynny yw, wrth newid dos neu ddyddiad terfyn y feddyginiaeth.
- Bod y feddyginiaeth yn cael ei chasglu ar ddiwedd pob blwyddyn academiaidd.
- Bod pob meddyginiaeth yn cynnwys label gwreiddiol y fferyllfa sy'n nodi enw'r disgybl, y dyddiad geni a'r dos.

Dylid ystyried alergeddau disgybl wrth benderfynu pa ddosbarthiadau y dylai eu mynychu, e.e. paratoi bwyd neu ddefnyddio deunyddiau penodol mewn gwersi gwyddoniaeth.



Cynllun Gofal Iechyd Ysgol Dyffryn Aeron – Alergeddau Difrifol/

Ysgol Dyffryn Aeron Health Care Plan - Severe Allergies

Enw Llawn y Disgybl/ Pupil's Full Name: _____

Dyddiad Geni / Date of birth: _____

Cyfeiriad Llawn / Full Address: _____

Dylai'r cynllun hwn gael ei gwblhau gan riant / warcheidwad cyfreithiol y plentyn a'i gymeradwyo gan y meddyg. /*This plan should be completed by the child's parent/legal guardian and approved by the doctor.*

Enw'r meddyg sy'n cymeradwyo/ The name of the approving doctor:

Llofnod a Dyddiad / Signature and Date: _____

(Bydd llythyr yn rhoi manylion am feddyginiaeth/gofal ac wedi'i lofnodi gan y meddyg/ymgyngorydd yn yr ysbyty neu nyrs arbenigol yn dderbyniol yn lle llofnod y meddyg)/

(A letter giving details of medication/care and signed by the doctor/consultant at the hospital, or a specialist nurse will be acceptable in lieu of the doctor's signature).

Enw'r rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol / The name of the parent or legal guardian:

Llofnod a Dyddiad / Signature and Date: _____

Cyfeiriad Llawn/ Full Address: _____

Perthynas â'r Disgybl /Relationship with the Pupil: _____

Rhif ffôn Cartref / Home phone number: _____

Rhif ffôn Symudol /Mobile phone number: _____

Cyfeiriad e-bost / E-mail address: _____

Ar ôl cwblhau'r cynllun, y rhiant / gwarcheidwad sy'n gyfrifol am fynd â chopi o'r Cynllun Gofal Iechyd yn yr Ysgol i bob apwyntiad perthnasol yn yr ysbyty / gyda'r meddyg er mwyn ei ddiweddarau.

Enw Llawn y Disgybl / Pupil's Full Name: _____

Mae gan y disgybl a enwir uchod alergedd i / The pupil named above has an allergy to:

Manylion y Symptomau / Details of Symptoms

Cosi / *Itching*

Brech gochlyd / *Red rash*

Teimlad o oglais / llosgi yn y geg / *Tingling / Burning sensation in the mouth.*

Teimlad o oglais / llosgi ar y gwefus / *Tingling / burning sensation on the lip*

Gwefus yn chwyddo / *Lip swelling*

Llygaid yn chwyddo / *Eyes bulging.*

Wyneb yn chwyddo / *Face swelling.*

Yr ardal o amgylch unrhyw bigiad / brathiad yn chwyddo / *Swelling in the surrounding area of any sting/bite.*

Anadlu'n fwy cyflym / *Breathe more quickly.*

Newid yn yr ymddygiad, ddim yn ymateb cystal neu wedi drysu / *Change in behaviour, not responding as well or confused.*

Manylion y Feddyginiaeth / Medicine Details

Dos y Feddyginiaeth: Sylw i'w nodi gan y Meddyg neu'r **rhiant / gwarcheidwad cyfreithiol** /

Dose of Medicine: Comment to be noted by the Doctor or Parent / legal guardian.

Enw'r rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol / *Name of the parent/ legal guaradian:*

Gwrth-histamin / *Antihistamine*

(.....)

Ventolin (Salbutamol)

Anadlydd / Breather

EpiPen

Dymunaf i'm plentyn dderbyn y feddyginiaeth / gofal a amlinellir yn y cynllun gofal hwn a derbyniaf y bydd y gwasanaethau brys yn cael eu galw yn ôl yr angen os bydd staff yr ysgol yn methu gweinyddu'r cynllun ar unrhyw adeg lle bo'n briodol.

I wish my child to receive the medication / care outlined in this care plan and I accept that the emergency services will be called as necessary if the school staff are unable to administer the plan at any time where appropriate.

Llofnod/Signature: _____

Rhiant / Gwarcheidwad sydd á chyfrifoldeb rhianta cyfreithiol / Parent/Legal Guardian:

Dyddiad / Date: _____

Disgybl (os yw'n briodol) / Pupil (if appropriate): _____

Cytunaf i'r trefniadau gofal a amlinellir yn y cynllun hwn / I agree to the care arrangements outlined in this plan:

Enw'r Disgybl / Pupil's Name: _____

Llofnod a Dyddiad / Signature and Date: _____

Y Pennaeth neu'r Aelod Dynodedig o'r Staff / The Headteacher or Designated Member of Staff: Nia Lloyd Thomas

Cytunaf i'r cynllun hwn gael ei weinyddu yn yr ysgol. Bydd y feddyginiaeth yn cael ei rhoi gan staff sy'n ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn.

I agree to this scheme being administered at the school. The medication will be administered by staff who are aware of the procedures to be followed.

Oni bydd modd gweithredu'r gweithdrefnau hyn ar unrhyw adeg, bydd yr ysgol yn dilyn cyngor yr unigolyn ieuchyd proffesiynol wrth alw am y gwasanaethau brys lle bo hynny'n briodol.

If it is not possible to implement these procedures at any time, the school will follow the advice of the health professional when calling for the emergency services where appropriate.

Enw'r Pennaeth neu'r Aelod Dynodedig o'r Staff / Name of the Headteacher or Designated Member of Staff: Nia Lloyd Thomas

Llofnod y rhiant/warchodwr cyreithiol/ Signature of parent/legal guardian:

Dyddiad / Date: _____

SIART LIF Y DRINIAETH / TREATMENT FLOWCHART

Adwaith Ysgafn / Cymhedrol / Mild / Moderate Reaction

Gwefus yn chwyddo / Lip swelling

Croen yn wridog, yn cosi, neu'n gochlyd / Skin flushed, itchy, or red.

Poen yn yr Abdomen a chyfog / Pain in the Abdomen and nausea.

Chwydd o amgylch y llygaid/ Swelling around the eyes.

Anadlu'n gyflym / Breathing quickly.

Rhowch ddos o wrth-histamin fel a nodir ar label y fferyllfa / Give a dose of antihistamine as indicated on the pharmacy label.

Os yw'r disgybl yn dioddef o'r fogfa (asthma), rhowch y rhyddhawr i'r disgybl gan ddilyn cyfarwyddiadau meddygol. / If the pupils suffers from wheezing (asthma), administrate the given medicine following the medical instructions.

Cysylltwch â'r rhiant / gwarcheidwad i'w hysbysu fod eu plentyn wedi dioddef adwaith alergaidd / Contact the parent / guardian to inform them that their child has suffered an allergic reaction.

Goruchwyliwch yn fanwl os bydd y cyflwr yn gwaethygu ac yn troi'n adwaith difrifol / Monitor closely if the condition worsens and turns into a serious reaction.

Adwaith Difrifol / Severe Reaction

Tafod yn chwyddo / Swelling of the tongue.

Llais cryg, anhawster llyncu / Hoarse voice, difficulty swallowing.

Peswch, anhawster anadlu, anadlu yn llafurus ac yn swnllyd / Cough, difficulty breathing, labored and noisy breathing.

Newid mewn lliw, gwelw, oer a llaith / Change in colour, pale, cold and damp.

Ar fin llewygu / About to faint.

Ymwybyddiaeth yn gwaethygu / Consciousness worsens.

Syrthio / llewygu / Fall / faint

Rhowch y disgybl i orwedd a chodi ei d/thraed, ar yr amod nad yw gwneud hynny yn amharu ar yr anadlu / *Have the pupil lie down and raise their feet, provided that doing so does not interfere with breathing.*

Cofnodwch yr amser y roddwyd y pen adrenalin / *Record the time when the adrenaline autoinjector was administered.*

1. Ffoniwch y gwasanaethau brys / *Call the emergency services.*
2. Dilynwch gyfarwyddiadau uned rheoli'r ambiwlans / *Follow the instructions of the ambulance control unit.*
3. Cysylltwch â'r rhiant / gwarcheidwad / *Contact the parent / guardian*
4. Arhoswch gyda'r disgybl / *Stay with the pupil.*
5. Rhowch y pen adrenalin i staff y gwasanaethau brys gan roi'r cofnod o'r amser y rhoddwyd y feddyginiaeth i'r disgybl. / *Give the emergency services staff the adrenaline autoinjector and notify them of the time when the medicine was given to the pupil.*

Rhoi'r EpiPen / Administering the EpiPen:

1. Daliwch y pen adrenalin yn gadarn / *Hold the adrenaline cap firmly.*
2. Tynnwch y capan diogelwch glas allanol / *Remove the outer blue safety cap.*
3. Daliwch ochr ôl y pen adrenalin 2 cm uwch ben ochr uchaf allanol y goes / *Hold the back of the adrenaline head 2 cm above the outer top of the leg.*
4. Gwthiwch yn gadarn yn erbyn y goes tan ichi glywed clic / *Push firmly against the leg until you hear a click.*
5. Daliwch y pen adrenalin yn ei le am 10 eiliad / *Hold the adrenaline autoinjector in place for 10 seconds.*
6. Tynnwch y pen adrenalin o'r goes / *Remove the adrenaline autoinjector from the leg.*

Dyddiad y polisi:

Llofnod (Cadeirydd y Corff Llywodarethol):



ALLERGY AND ANAPHYLAXIS MANAGEMENT POLICY

YSGOL DYFFFRYN AERON

ALLERGY AND ANAPHYLAXIS MANAGEMENT POLICY

OVERVIEW

Ysgol Dyffryn Aeron is committed to a whole school approach to the health care and management of those members of the school community suffering from specific allergies.

The School position is not to guarantee a completely allergen free environment, rather to minimise the risk of exposure, encourage self-responsibility, and plan for an effective response to possible emergencies.

The School is committed to proactive risk allergy management through:

- The encouragement of self-responsibility and learned avoidance strategies amongst children suffering from allergies.
- Provision of a staff awareness programme on anaphylaxis.
- The establishment and documentation of a comprehensive management plan where needed.
- The establishment of specific risk exposure minimisation practices and strategies wherever required
- Close liaison with parents/guardias of children who suffer allergies.

This method of management is consistent with existing specialist medical advice, and the School believes that teaching children to manage their own condition is a skill that is compatible with their situation in the 'real world'.

RATIONALE

The School recognises that a number of community members (pupils and staff) may suffer from potentially life threatening allergies to certain foods or toxins from insects. The School seeks parent, staff and pupil support towards maintaining a minimised risk environment, whilst also concentrating on ensuring effective medical response to potential anaphylactic episodes.

The intent of this policy is to minimise the risk of any school member suffering allergy-induced anaphylaxis whilst at School or attending any school related activity, and to ensure staff are properly prepared to manage such emergency situations should they arise.

The common causes of allergies relevant to this policy are nuts, (in particular peanuts), dairy products, eggs, wasps, bees, and ants. The allergy to nuts is the most common high risk allergy, and as such demands more rigorous controls than the controls for allergies to dairy products, eggs and wasps, bees and ants.

The School is also aware of the stresses imposed on parents, guardians and teachers, with the potential for anaphylactic reaction in children for whom they have a responsibility. To this end, the provision of procedures and systems to manage such stress effectively is also an aim of this policy.

The underlying principles of the School Allergy Policy include: -

- The pro-active establishment of effective risk management practices to minimise pupil, staff, parents' and visitors' exposure to known trigger foods and insects.
- Staff training and education to ensure an effective emergency response to any allergic reaction situation.

DEFINITIONS

Allergy - A condition in which the body has an exaggerated response to a substance (e.g. food or drug). Also known as hypersensitivity.

Allergen – A normally harmless substance that triggers an allergic reaction in the immune system of a susceptible person.

Anaphylaxis – Anaphylaxis, or anaphylactic shock, is a sudden, severe and potentially life threatening allergic reaction to food, stings, bites, or medicines.

EpiPen – Brand name for syringe style device containing the drug adrenaline which is ready for immediate intramuscular administration.

Minimised Risk Environment - An environment where risk management practices have minimised the risk of (allergen) exposure to a reasonable level. Not an allergen free environment.

KEY STRATEGIES

General Aspects

The establishment of clear procedures and responsibilities to be followed by staff in meeting the needs of children with additional medical needs.

The involvement of parents, staff and the child in establishing an individual medical care plan.

Ensuring effective communication of individual child medical needs to all relevant teachers and other staff.

Ensuring First Aid Staff training includes anaphylaxis management, including awareness of triggers and first aid procedures to be followed in the event of an emergency.

Parents of children with packed lunches will be requested to give careful thought to eliminating food that may be of risk to those members of staff and pupils who suffer from such allergies.

Nut Related Aspects

If the school is aware of a child who suffers a nut allergy, the school lunch caterer and suppliers must be made aware of the risk minimisation policy and requested to eliminate nuts and food items with nuts as ingredients from meals. This does not extend to those foods labelled "may contain traces of nuts". Children are encouraged to self-manage their allergy.

Dairy and Egg Related Aspects

Children with dairy product or egg allergies are managed by the School in consultation with the parents on a case by case basis.

Insect Related Aspects

Diligent management of wasp, bee and ant nests on School grounds and proximity. This must include the effective system for staff reporting to management, and a system of timely response to eradicating nests.

Education of staff and pupils to report any above normal presence of wasps, bees or ants in all areas of the school.

RESPONSIBILITIES

Parents are responsible for:

Providing ongoing and accurate and current medical information in writing to the School. This is to include the completion of the Pupil's Health Care Plan. The School will seek updated information via a Pupil's Health Care Plan at the commencement of each calendar year, to which parents are required to respond. Furthermore, should a child develop a condition during a year, or have a change in condition the parents must advise the School of the fact, and details to be clarified accordingly in the individual health plan.

Providing written advice from a doctor, which explains the child's allergy, defines the allergy triggers and reaction, and any required medication, including completion of an action plan with supporting photographic or other evidence.

Providing EpiPens and/or other necessary medication, including monitoring their use by dates and replacing medication if necessary.

Providing appropriate foods to be consumed by the child if necessary.

The School is responsible for:

- Ensuring the School receives medical documentation regarding a child's allergy.
- Ensuring there is an effective system to ensure this medical information is regularly updated.
- Ensuring that an Action Plan is provided by the child's parents.
- Ensuring that where children with known allergies are participating in external visits, the risk assessment and safety management plans for those external visits include the Pupil's Health Care Plan.
- Ensuring that first aid staff are trained in the use of EpiPens and management of anaphylaxis.

Catering Staff are responsible for:

- Using only authorised suppliers and being the controlling/point and contact for all purchases of food stuffs for school catering.
- Ensuring suppliers of all foods and catering suppliers are aware of the school minimisation procedures.
- Ensuring supplies of food stuffs are nut free or labelled "may contain nuts"
- Being aware of pupils and staff who have such food allergies.
- Clear labelling of items of food stuffs that may contain nuts.

MINIMISED NUT ENVIRONMENT

The School is to promote the food allergy information through the School Handbook, in a class which has a child suffering an allergy.

Staff awareness through H&S Induction.

Notices in and around the catering areas and in risk assessments:

No Peanuts

No Nuts of any type

Foods with peanut or nut derivative or ingredients. Potential allergens could include the following:

- Spreads, e.g. chocolate spread
- Cereal bars
- Some types of biscuit containing nuts
- Condiments, e.g. satay sauce
- Cakes containing nuts
- Some snack pots containing nuts

It is important that you check the labelling of food products before sending your child in to school with them – it is not always apparent that products contain nuts or traces of nuts.

We appreciate that this is a big change for all and apologise for any inconvenience this may cause.

EDUCATIONAL VISITS

The Group Leader will check with any food provider and ensure 'safe' food is provided, or that an effective control is in place to minimise risk of exposure.

Where a pupil is prescribed EpiPen the Group Leader will ensure they or another supervising staff member is trained in the use of the EpiPen, and capable of performing any possible required medical treatment as outlined in the Pupils Health Care Plan.

The Group Leader will ensure the Pupil has her/his EpiPen on the visit and will be responsible for its security.

If in doubt over the risk of a pupil with an allergy taking part on an education visit the Group Leader should seek advice from the Parent or School Nurse.

SCHOOL MANAGEMENT OF SEVERE ALLERGIES (ANAPHYLAXIS)

All school staff, supply teachers and support staff should be made aware of severe allergies and anaphylaxis and the emergency care procedures.

Involved staff will know about the School Health Care Plan.

The EpiPen will be kept in a central location, with an Emergency Care Flow Diagram.

It is the responsibility of the parent/guardian to ensure that:

- Medication is supplied to the school.
- The medication is replaced as necessary i.e. on change of dose or expiry date.
- It is collected at the end of each academic year.
- All medication has the original pharmacy label attached stating the pupil's name, date of birth and dose.

Consideration of a pupil's allergies is to be made with regard to classes to be attended, e.g. food preparation or use of certain materials in science lessons.

Please find Ysgol Dyffryn Aeron Health Care Plan- Severe Allergies, as well as additional forms on pages 7 – 9 of the policy.

Date of policy:

Signature (Chair of Governing Body):